Ein Stori Lawen

Yr ydym yn Eglwys Blwyf Gymraeg yng nghanol y ddinas ac yr ydym wedi bod yn rhan o fywyd, bwrlwm a thwf Caerdydd ers mwy na chanrif a hanner.

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgar a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.
- Yr ydym yn falch o annog a chefnogi dysgwyr y Gymraeg.
- Mae croeso ac mae lle yn yr eglwys hon i bawb sydd am ystyried neu ailgydio yn eu ffydd neu sy'n chwilio am gartref ysbrydol.

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:

Ficer/Vicar: Y Parchedig Ganon Dyfrig C. Lloyd
Rhif Ffôn: 029 2056 6001
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Curad / Curate: Y Parchedig Athro Lloyd Llewellyn-Jones
Y Wardeniaid/Churchwardens:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Delyth Davies – Ffôn: 077 61 118722
E-bost: delyth.d@yahoo.com
Cyfarwyddwr Cerdd:
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
Trysorydd:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:
Graham Carson - Ffôn: 029 2069 1860
Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:
Marian Fairclough - Ffôn: 07579763030
E-bost: faircloughmarian@gmail.co

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd

EGLWYS DEWI SANT
www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.

24 Awst 2025
Gŵyl Bartholomeus, Apostol

10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân
Darllenwyr: Tim Saunders / Dawn King
Emynau: 230 (Darwell); 227 (Dyfrdwy 5); 235 (Bod Alwyn); 282 (Pen yr Yrfa 329)

6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth
Salm: 91
Darlleniadau: Ecclesiasticus 39:1-10
Mathew 10:1-22
Darllenwyr: Karl Davies / Margaret Hughes
Emynau: 168 (Narenza); 189 (Dominus Regit Me 512); 169 (All Saints)

YN EIN GWEDDÏAU

Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Megan Davies, John Hicks, Eleri Hughes, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist, dros Goronwy Jones a phawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

Yn yr Eglwys:

Nos Fawrth 26 Awst 2025
Dim ymarfer côr

Dydd Mercher 27 Awst 2025
10.30am Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 31 Awst 2025
Trindod XI
10.30am Y Foreol Weddi a Phregeth
6.00pm Y Cymun Bendigaid

MIS AWST

Cynhelir ein gwasanaethau yn ôl yr arfer yn ystod mis Awst.

PERERINDOD MIS Awst – ABATY MARGAM

Dyma'r trefniadau ar gyfer ein Pererindod **dydd Iau 28 Awst**. Byddwn yn cwrdd yn nhafarn Tywysog Cymru, Maudlam CF33 4PR toc cyn canol dydd. Wedi i ni gael cinio byddwn yn cyfarfod yn yr Abaty am 2.00pm. Yn dilyn cyflwyniad ar hanes yr eglwys cawn gyfle i grwydro o'i hamgylch ac ymweld â'r Lapidariwm sydd gyferbyn â hi. Mae cyfleusterau, siop fach a lle i gael paned yn yr Abaty. Bydd ein hymweliad yn diweddu gyda gwasanaeth byr dim hwyrach na 4.00pm. I'r rhai sy'n dymuno, bydd cyfle i gerdded lan y bryn gerllaw'r Abaty i ymweld ag adfeilion Capel Mair. Bydd Delyth Davies angen eich dewis o'r fwydlen erbyn **diwedd y dydd heddiw**. Mae'r fwydlen i'w gweld yng nghefn yr eglwys. Byddwn hefyd yn trefnu ceir i'r rhai sydd angen cludiant. Gwn fod wardeniaid yr Abaty yn edrych ymlaen yn arw i'n croesawu.

ANGLADD

Cynhelir angladd Goronwy Jones dydd Llun 8 Medi yn EDS am 12.30pm.

CANOLFAN GLYD Y TABERNACL

Diolch i bawb sydd wedi gwirfoddoli i gynorthwyo yn y Ganolfan Glyd dydd **Sul 14 Medi.** Mae'r rhestr bellach yn llawn.

CLOCH DEWI

Yr ydym yn bwriadu cyhoeddi y rhifyn nesaf o Cloch Dewi tua chanol mis Medi. Os hoffech gyfrannu erthygl am eich gweithgarwch dros yr haf, neu unrhyw bwnc arall, lluniau, neu bwt bach a fyddech chi gystal ag anfon eich cyfraniadau at Wyn Mears: wyn@wynmears.com erbyn dydd **Gwener 5 Medi.**

CYMORTH CRISTNOGOL

Eleni y mae Cymorth Cristnogol yn dathlu 80mlynedd ers ei sefydlu yn 1945. I nodi'r garreg filltir hon cynhelir gwasanaeth o ddiolch a dathlu gwaith a datblygiad Cymorth Cristnogol dros yr wyth degawd diwethaf yn nghapel Tabernacl yr Ais, nos Fercher 17 Medi am 6.30pm. Estynnir croeso cynnes i bawb.

AGOR YR EGLWYS

Ar ddyletswydd **Dydd Mercher 27 Awst**: 11.30am – 1.30pm: Dilys Jones a Beti Davies

GWEDDÏAU'R SUL

- Eglwys Anglicanaidd De Ddwyrain Asia
- Ardal Gweinidogaeth Cynon Uchaf, arweinydd i'w benodi

Darlleniadau a Gwyliau

Dydd Llun 25 Awst:
I Thesaloniaid 1:1-10; Salm 149:1-5; Mathew 23:13-22
Gweddïwn: Esgobaeth Ogbomoso – Eglwys Nigeria
Deoniaeth Pen-y-bont ar Ogwr, Deon Bro i'w benodi

Dydd Mawrth 26 Awst: Ann Griffiths
I Thesaloniaid 2:1-8; Salm 139:1-10; Mathew 23:23-26
Gweddïwn dros: Esgobaeth Ogoni, Eglwys Anglicanaidd Nigeria
Ardal Gweinidogaeth Cymoedd Llynfi ac Uwch Afan, y Parchedig Rick Gratton, arweinydd

Dydd Mercher 27 Awst: Monica
I Thesaloniaid 2:9-13; Salm 126; Mathew 23:27-32
Gweddïwn dros: Esgobaeth Ogorimagongo - Eglwys Anglicanaidd Nigeria
Ardal Gweinidogaeth Pen-y-bont ar Ogwr, y Parchedig Mark Broadway, arweinydd

Dydd Iau 28 Awst: Awstin o Hippo
I Thesaloniaid 3:6-13; Salm 90:13-17; Mathew 24:42-51
Gweddïwn dros: Esgobaeth Ohaji/ Egema – Eglwys Anglicanaidd Nigeria
Ardal Gweinidogaeth Margam, y Parchedig Ganon Jon Durley, arweinydd

Dydd Gwener 29 Awst: Dienyddio Ioan Fedyddiwr
I Thesaloniaid 4:1-8; Salm 97; Mathew 25:1-13
Gweddïwn dros: Esgobaeth Ohio – Eglwys Esgobol Unol Daleithiau America
Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth, James Laing, Ysgrifennydd yr Esgobaeth

Dydd Sadwrn 30 Awst:
I Thesaloniaid 4:9-12; Salm 98; Mathew 25:14-30
Gweddïwn dros: Esgobaeth De Ohio – Eglwys Esgobol Unol Daleithiau America
Eglwys Gadeiriol Llandaf, yr Tra Pharchedig Jason Bray (Deon), y Parchedig Ganon Ian Yemm (Pen-gantor)